



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding

<b>CYFARFOD</b>	<b>Cydbwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	06 Rhagfyr 2023
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2023/24</b> <b>Adolygiad hyd at ddiwedd Medi 2023</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2023/24.</li><li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

## 1. CASGLIAD

- 1.1 Ar sail gwariant ac incwm hyd at ddiwedd Medi 2023 ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad yma yn rhagweld gorwariant net o £36,614 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24.
- 1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**

**Gorwariant £51,984**

Gorwariant yn dilyn trosglwyddiad cyllideb a gyfeirir ato yn 3.1, serch hynny mae'r gorwariant yn cael ei leihau oherwydd tanwariant yn dilyn trosiant staff, yn bennaf, dwy swydd barhaol sydd heb eu llenwi hyd yma. Mae gobaith y bydd y ddwy swydd wedi eu penodi cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

2.2 **Cludiant:**

**Tanwariant (£15,370)**

Mae disgwyl i'r gyllideb hon danwario eleni, ond yn agosach i niwtral nag yn y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'r ysgolion bellach yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan Covid, felly mae staff GwE yn gallu ymweld ag ysgolion fel y bo angen. Hon fydd y flwyddyn ariannol llawn cyntaf ble bydd lefelau teithio staff yn agosáu i lefelau cyn 2020. Er hynny, fe fydd yn fuddiol i weld os fydd y ffyrdd newydd o weithio'n rhithiol yn arwain at leihad mewn costau teithio yn y tymor hir.

### **3. ARBEDION I'W DARGANFOD**

- 3.1 Yng Nghydbwyllgor GwE 15 Chwefror 2023, wrth sefydlu cyllideb 2023/24, gosodwyd targed arbedion cyfwerth â £102,112, oedd yn cyfateb i gynnydd costau am y flwyddyn. Yn ddarostyngedig i adborth y Prif Weithredwyr ar adolygu'r trefniadau gweithredu strwythur staffio presennol y gwasanaeth, bydd yr arbedion yn cael eu hysgwyddo yng nghyd-destun y strwythur yn ei gyfanrwydd. Gall hyn fod yn arbediad effeithlonrwydd neu yn doriad yn unol ag amserlen penderfynu y prif weithredwyr.

### **4. CRONFA TANWARIANT**

- 4.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2023/24 oedd £298,632.

- 4.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £262,018 ar ddiwedd 2023/24, yn dilyn cyllido'r gorwariant a ragwelir uchod.

## **ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2023/24 – Adolygiad hyd at ddiwedd Medi 2023.

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad